# Gofalu am geffylau perfformio ar ôl gwaith egnïol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gofalu am geffylau perfformio ar ôl gwaith egnïol. Mae ceffylau perfformio yn cynnwys ceffylau ar gyfer rasio, cystadlaethau a gyrru.

Mae'r safon hon yn cynnwys gofalu am y ceffyl ar ôl gwaith egnïol yn unol ag anghenion y ceffyl unigol, y tywydd a'r adeg o'r flwyddyn.

Dylech fod yn gallu gofalu am geffyl poeth, chwyslyd yn syth ar ôl ymarfer a cheffyl oer, gwlyb ar ôl dychwelyd o ymarfer.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. gofalu am geffylau perfformio ar ôl gwaith egnïol trwy dynnu harneisiau ac offer, gan gynnal diogelwch ac esmwythdra'r ceffyl drwy'r amser
4. golchi, oeri a sychu'r ceffyl fel y bo'n briodol, yn unol â'r cyfarwyddiadau
5. rhoi dillad ac offer priodol ar y ceffyl, yn unol â'r cyfarwyddiadau
6. gwirio coesau a thraed y ceffyl a hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw broblemau
7. cynorthwyo i osod paratoadau arbenigol ar gyfer y coesau yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. rhoi bwyd a dwr i'r ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau
9. monitro iechyd a llesiant y ceffyl ar ôl ymarfer a hysbysu'r person priodol ynghylch unrhyw broblemau
10. cynorthwyo gydag unrhyw driniaeth i geffylau â phroblemau iechyd
11. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. arwyddion blinder a straen mewn ceffylau ar ôl gwaith egnïol
4. sut i oeri a sychu'r ceffyl a'r rhesymau pam y mae'n rhaid ystyried y tywydd
5. gofynion gofal ceffylau yn dibynnu ar hyd a dwyster y gwaith egnïol
6. gofynion trin a glanhau'r ceffylau ar ôl gwaith
7. y dillad a'r offer y mae'n rhaid eu defnyddio ar gyfer ceffylau, yn cynnwys cynfasau chwysu a charthenni thermol
8. pwysigrwydd gwirio coesau a thraed y ceffylau ar ôl gwaith egnïol
9. y mathau a'r rhesymau dros baratoadau arbenigol ar gyfer y coesau yn cynnwys powltrisiau a rhwymau
10. y gofynnon porthiant a dwr yn dilyn gwaith egnïol
11. sut i adnabod a hysbysu ynghylch problemau iechyd a phwysigrwydd monitro'r ceffyl yn enwedig mewn perthynas â dysychu
12. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
13. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Gofalu am:

- geffyl poeth chwyslyd yn syth ar ôl gwaith egnïol
- ceffyl gwlyb ar ddiwrnod oer wrth ddychwelyd o waith egnïol

Golchi:

- golchi â sbwng
- golch llawn
- chwistrellu
- crafu chwys

Defnyddio dau o'r canlynol ar ôl oeri a sychu:

- cerdded o amgylch
- rhwbio â lliain
- lampau gwres

## Geirfa

Problemau iechyd:

- problemau cyfradd anadlu
- trychiadau
- chwyddo
- problemau gyda phedolau
- dim archwaeth a ddim yn yfed

Gofalu am geffylau perfformio ar ôl gwaith egnïol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq223 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; rasio; marchogaeth; cystadleuaeth; ymarfer |